

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Abertawe	EFGA Elim Church Swansea	Bydd EFGA Elim Church Swansea yn cyflogi mentor ieuenctid i gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu risg i gyrchu addysg, cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol. Bydd £9,980 yn ariannu costau gweinyddu, hyfforddi a datblygu, lluniaeth, cyhoeddusrwydd a rheolwr mentor ieuenctid.
Abertawe	Tom Morgans Friends of Brynmill Park	Bydd Tom Morgan's Friends of Brynmill Park yn Abertawe'n darparu diwrnod hwyl i deuluoedd fel rhan o gyfres o ddiwyddiadau cymunedol a redir gan wirfoddolwyr. Bydd £4,270 yn ariannu saith pabell fawr, dau doiled cludadwy, darpariaeth cymorth cyntaf, generadur, peiriannydd sain, difyrrwr plant, byrddau, cadeiriau, gemau, paentio wynebau, yswiriant, trwyddedau a deunyddiau marchnata.
Abertawe	Walsingham Support Community Solutions	Bydd Walsingham Support Community Solutions yn sefydlu ac yn rhedeg clwb cinio wythnosol yng Nghwm Tawe ar gyfer pobl hŷn i helpu lleihau unigedd ac unigrwydd trwy raglen weithgareddau a chynnig cefnogaeth a chynghor. Bydd £10,000 yn ariannu cludiant hygyrch, deunyddiau marchnata a hyfforddwr gweithgareddau.
Abertawe	YMCA Abertawe	Bydd YMCA Abertawe'n galluogi pobl ifanc a hŷn ddifreintiedig i ennill hyder, dysgu sgiliau a gwella'u lles trwy gyfrwng cerddoriaeth a chelfyddydau perfformio. Bydd £9,750 yn ariannu costau gweithiwr sesiynol a chyfarpar cerddoriaeth.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Abertawe	Ysgol Pen-Y-Bryn	Bydd Ysgol Pen-Y-Bryn yn Abertawe'n defnyddio'r grant i redeg prosiect ennyn diddordeb y gymuned, gan gynnwys amrywiaeth o ddiwrnodau gweithgareddau a dysgu sgiliau garddio, tyfu ac adeiladu i drigolion lleol. Bydd £9,850 yn ariannu offer, cyfarpar, deunyddiau gwaith, deunyddiau gweithgareddau amgylcheddol creadigol, ffioedd tiwtor sesiynol, pren ar gyfer meinciau, costau PPE ar gyfer gwirfoddolwyr, marchnata'r prosiect, ac amrywiaeth o blanhigion a hadau.
Bro Morgannwg	The Infertility Network (UK)	Bydd The Infertility Network (UK) yn gweithio gyda phobl sydd â phroblemau ffrwythlondeb ledled Cymru. Byddant yn ehangu eu grwpiau cefnogi, gan ddarparu cefnogaeth ar-lein ac adeiladu ar eu gwaith eiriolaeth blaenorol. Bydd £9,849 yn ariannu costau staff, treuliau teithio, treuliau gwirfoddolwyr, costau gwerthuso, costau argraffu a chostau rheoli.
Caerdydd	Cardiff City FC Community Foundation	Bydd Cardiff City FC Community Foundation yn dod â grwpiau pobl hŷn a phobl ifanc unig ynghyd mewn prosiect rhwng y cenedlaethau. Bydd £9,951 yn ariannu staff y prosiect, costau rhedeg, cyhoeddusrwydd a hyrwyddo.
Caerdydd	Cathays & Central Youth And Community Project	Bydd Cathays & Central Youth And Community Project yng Nghaerdydd yn defnyddio'r grant i drefnu gŵyl gerddoriaeth sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, i ddod â'r gymuned leol ynghyd. Bydd £3,856 yn ariannu

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		artist, dau diwtor cerddoriaeth, hurio bws mini, hurio lleoliad, meddalwedd a pheiriannydd sain.
Caerdydd	Pinkspiration C.I.C.	Bydd Pinkspiration C.I.C. yn Rhondda Cynon Taf yn galluogi pobl ifanc i ddylunio a chefnogi ailddatblygu gofod gwag, segur yng Nghaerdydd. Byddant yn dysgu sgiliau cynllunio, dylunio ac adeiladu sylfaenol newydd. Bydd £10,000 yn ariannu hyfforddiant, ffilmio a marchnata, a threuliau gwirfoddolwyr.
Caerdydd	Seren in the Community CIO	Bydd Seren in the Community CIO yng Nghaerdydd yn defnyddio'r grant i redeg sesiynau chwarae a gefnogir ar gyfer plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel a fydd yn helpu gwella hyder a chreu cysylltiadau cymunedol. Bydd £9,953 yn ariannu gweithgareddau a chyfarpar, gwirfoddolwyr a staffio a chostau cefnogi'r prosiect.
Caerdydd	Uned Cefnogaeth Bersonol	Bydd yr Uned Cefnogaeth Bersonol yn darparu cefnogaeth un i un wedi'i theilwra ar gyfer unigolion sy'n wynebu achos llys sifil neu deuluol nad oes ganddynt fynediad i gyfreithiwr. Bydd £10,000 yn ariannu costau cyflog a staff, treuliau gwirfoddolwyr, nwyddau swyddfa, argraffu a lluniaeth.
Caerffili	Friends of the new breast unit ABUHB	Bydd Friends of the new breast unit ABUHB yng Nghaerffili'n darparu grŵp cefnogi canser ar y fron sydd wedi'i arwain gan gyn-gleifion. Bydd £7,450 yn ariannu gweithwyr sesiynol, cyfarpar crefft a nwyddau traul, hurio

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		ystafell, lluniaeth, costau cludiant, gwefan a chyhoeddusrwydd.
Caerffili	Sparrows	Bydd Sparrows yng Nghaerffili'n darparu sesiynau chwarae cynhwysol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu a chorfforol ychwanegol. Bydd £1,380 yn ariannu hurio ystafell, hurio castell neidio a lluniaeth.
Caerffili	Ysgol Bro Sannan	Bydd Ysgol Bro Sannan yng Nghaerffili'n defnyddio'r grant i greu gardd lle gall eu disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach ddod ynghyd i dyfu llysiau, gan wella perthnasoedd a lles trwy fwyta'n iach a garddio. Bydd £8,000 yn ariannu cyfarpar ar gyfer pobl sydd ag anableddau, gwaith daear a chostau gosod.
Casnewydd	The Kings Church	Bydd The Kings Church yng Nghasnewydd yn darparu cludiant fel y gall aelodau'r gymuned ddod at eu gweithgareddau a digwyddiadau. Bydd £10,000 yn ariannu bws mini.
Casnewydd	Zimbabwe Newport Volunteering Association	Bydd Zimbabwe Newport Volunteering Association yn rhedeg cyfres o weithdai a digwyddiadau i ddod â phobl Casnewydd a ffoaduriaid lleol ynghyd. Bydd y prosiect hwn yn helpu adeiladu cysylltiadau cryfion rhwng y cymunedau hyn. Bydd £9,950 yn ariannu gwefan, hurio neuadd, digwyddiad dydd, diwrnod hwyl i'r teulu, cystadleuaeth pêl-droed, yswiriant, gweinyddu, treuliau gwirfoddolwyr, gweithwyr sesiynol, cludiant a marchnata.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Castell-nedd Port Talbot	Cymdeithas Caeau Chwarae Ynysdawley	Bydd Cymdeithas Caeau Chwarae Ynysdawley yng Nghastell-nedd yn adeiladu caeau chwarae hygyrch ar gyfer plant sydd ag anableddau. Bydd £8,000 yn ariannu cyfarpar ar gyfer pobl sydd ag anableddau, gwaith daear a chostau gosod.
Castell-nedd Port Talbot	Cymorth Menywod Port Talbot ac Afan	Bydd Cymorth Menywod Port Talbot ac Afan yn creu canolfan allgymorth a datblygu newydd ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Bydd £9,988 yn ariannu cymhorthion cwnsela, cyfarpar cegin, cyfarpar ystafell gyfarfod, bwrdd clyfar, cyfarpar TG a nwyddau i'r ganolfan
Castell-nedd Port Talbot	Stow Hill Resource & Enterprise Centre	Bydd Stow Hill Resource & Enterprise Centre yng Nghasnewydd yn recriwtio ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr gan gynnwys pobl sy'n astudio Saesneg fel ail iaith i helpu gyda rhedeg y ganolfan, a fydd yn gwella eu sgiliau iaith a chydlyniant cymunedol. Bydd £8,004 yn ariannu costau staff, hyfforddiant gwirfoddolwyr, teithio gwirfoddolwyr a nwyddau swyddfa.
Ceredigion	Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth	Bydd y prosiect yn codi ymwybyddiaeth a chyflwyno hyfforddiant i gynyddu sgiliau a gwybodaeth staff a myfyrwyr ynglŷn ag atal hunanladdiad. £23,000 yw'r grant
Conwy	Community & Voluntary Support Conwy	Bydd y prosiect yn darparu car cymunedol i ardaloedd gwledig De Conwy, gan gynnwys wardiau Betws y Coed, Uwch Conwy, Uwchaled a'r wardiau hynny a gwmpasir gan Feddygfeydd Cerrigydrudion a Betws y

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		Coed. Bydd y car, a gaiff ei yrru gan wirfoddolwyr, yn galluogi pobl sy'n mewn ardaloedd gwledig anghysbell i fynychu apwyntiadau meddyg a chlaf allanol a gweithgareddau iechyd a lles. Bydd menter gymdeithasol yn cael ei datblygu, gan roi perchnogaeth i'r gymuned ar y cynllun car cymunedol £99,000 yw'r grant
Conwy	Merched y Wawr Rhanbarth Aberconwy	Bydd Merched y Wawr Rhanbarth Aberconwy yn dod â chymunedau ynghyd o bob cwr o fwrdeistref Conwy trwy gynnal gweithdai, ymdrin â phroblemau ac ennyn diddordeb plant a phobl ifanc.
Conwy	Y Ganolfan Arwyddo, Sain a Golwg	Bydd Y Ganolfan Arwyddo, Sain a Golwg ym Mae Colwyn yn darparu sesiwn galw heibio wythnosol ar gyfer pobl fyddar a dehonglwyr iaith arwyddion fel y gallant gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau a theithiau. Bydd £9,991 yn ariannu hurio ystafell, dehonglwyr iaith arwyddion, costau staff, costau hyfforddi, gweinyddu a chyhoeddusrwydd.
Conwy	Ysgol Pencae	Bydd Ysgol Pencae yng Nghonwy yn gwella iechyd a lles yn y gymuned trwy osod cyfarpar campfa awyr agored.
Gwynedd	Cymdeithas Caeau Chwarae Edern	Bydd y prosiect yn datblygu'r ardal chwarae yn Edern yng Ngwynedd er mwyn darparu cyfarpar maes chwarae newydd sy'n hygyrch i bawb. Bydd y cyfarpar chwarae'n hollol gynhwysol ar gyfer pob oedran a gallu a bydd yn

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		hygyrch i bawb, gan ddarparu amgylchedd chwarae diogel. £86,944 yw'r grant.
Pen-y-bont ar Ogwr	Gwasanaethau Hamdden Halo Cyfyngedig	Bydd Gwasanaethau Hamdden Halo yn adeiladu ar gynllun peilot presennol sy'n cyflwyno gweithgareddau nofio a chymdeithasu ar gyfer pobl sydd â dementia, a'u gofalwyr, yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r £58,858 yn galluogi'r grŵp i barhau i ddarparu gwasanaethau yn rhannau deheuol y Sir yn ogystal ag ehangu a chynnig gweithgareddau i'r rhai yng ngweddill y Sir. Bob wythnos byddant yn cyflwyno awr o nofio wedi'i ddilyn gan awr o weithgareddau cymdeithasol, mewn tri lleoliad bob wythnos. Bydd cludiant cymunedol yn cael ei ddarparu hefyd i alluogi'r rhai mewn ardaloedd mwy anghysbell i gymryd rhan.
Powys	Cyngor Tref Rhaeadr Gwy	Bydd Cyngor Tref Rhaeadr Gwy ym Mhowys yn gwella lle a danddefnyddir yn y gymuned leol, gan ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau gwell ar gyfer trigolion. Bydd £10,000 yn talu'n rhannol am adeiladu parc beicio.
Powys	Gerddi Bro Ddyfi	Bydd y prosiect yn darparu sesiynau galw heibio, gweithdai a digwyddiadau agored yng Ngerddi Bro Ddyfi, Machynlleth, a fydd yn cynnig cyfleoedd i'r gymuned gyfan, gan gynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol ac anawsterau dysgu, gaffael sgiliau newydd trwy arddwriaeth therapiwtig. Bydd iechyd a lles yn gwella, ynghyd â rhyngweithio cymdeithasol a gwaith

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		rhwng y cenedlaethau a fydd yn dod â'r gymuned ehangach ynghyd, gan ostwng teimladau o unigrwydd ac unigedd cymdeithasol.
Powys	The Hayday Café	Bydd The Hayday Café ym Mhowys yn cynnig gweithdai celfyddydau cymunedol ar gyfer pobl sy'n profi neu sydd wedi'u heffeithio gan dementia. Bydd £9,500 yn ariannu gweithdai creadigol, cefnogaeth dechnegol a chostau cynhyrchu.
Rhondda Cynon Taf	Cyngor Eglwys Blwyfol Eglwys Santes Catrin, Pontypridd	Bydd Cyngor Eglwys Blwyfol Eglwys Santes Catrin, Pontypridd yn gwella'r cyfleusterau cyfrifiadurol mynediad cyhoeddus yn eu caffi cymunedol, i helpu pobl i chwilio am swyddi a chyngor ar fudd-daliadau. Bydd £3,480 yn ariannu cyfrifiaduron, llechi, gosodiad Ethernet, a meddalwedd.
Rhondda Cynon Taf	Cymdeithas Gymunedol Cwmparc	Bydd Cymdeithas Gymunedol Cwmparc yn Rhondda Cynon Taf yn sefydlu ac yn rhedeg Hyb Teuluoedd yn eu hardal sydd â gweithgareddau darpariaeth ieuenctid a chymunedol. Bydd £9,900 yn ariannu costau staff.
Rhondda Cynon Taf	Fforwm Tenantiaid Cynon Taf	Bydd Fforwm Tenantiaid Cynon Taf yn Rhondda Cynon Taf yn defnyddio'r grant i redeg sesiynau rhwng y cenedlaethau i ddod â phobl ynghyd a chyfnewid sgiliau a fydd yn arwain at gynrychiolaeth pobl o bob oedran yn y fforwm. Bydd £9,912 yn ariannu costau staff, treuliau teithio staff a chostau sesiynau.
Rhondda Cynon Taf	Rhondda Hub for Veterans Ltd	Bydd Rhondda Hub for Veterans Ltd yn datblygu eu grŵp newydd trwy gefnogi cyn-filwyr a'u galluogi i ymdrin

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		ag unrhyw faterion y maent yn eu hwynebu, fel diweithdra a phroblemau iechyd meddwl. Bydd £10,000 yn ariannu'r cyflog ar gyfer gweithiwr cefnogi.
Rhondda Cynon Taf	Swallow Laryngectomee Club	Bydd Swallow Laryngectomee Club yn Aberdâr yn trefnu gwibdeithiau cymdeithasol ar gyfer eu haelodau i'w helpu i ymaddasu i'w cyflwr a gwella'u lleferydd. bydd £2,140 yn ariannu cludiant, prydau bwyd a ffioedd mynediad.
Rhondda Cynon Taf	Waun Wen Lindsay Leg Club	Bydd Waun Wen Lindsay Leg Club yn Y Porth yn defnyddio'r grant i brynu cyfarpar a gwella rhediad eu clwb newydd, sy'n galluogi trigolion i gyrchu gofal a chyngor meddygol mewn lleoliad cymunedol. Bydd £8,700 yn ariannu costau rhedeg, cyfarpar a threuliau.
Sir Benfro	Cwmni Buddiant Cymunedol Fforwm Arfordir Sir Benfro	Bydd Cwmni Buddiant Cymunedol Fforwm Arfordir Sir Benfro yn cynnal pedwar digwyddiad hyfforddi a diwrnodau Her Arfordir ar gyfer busnesau, ysgolion a'r gymuned er mwyn diogelu a gofalu am eu hamgylchedd lleol. Bydd £4,899 yn ariannu costau staff, lleoliadau, hyfforddiant a marchnata.
Sir Benfro	Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol	Bydd Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol yn Sir Benfro'n cychwyn cynllun cynnal a chadw beiciau cynaliadwy a fydd hefyd yn galluogi nhw i gymryd rhan mewn rhaglen credydau banc amser. Bydd £9,933 yn ariannu costau cyflog, teithio a hurio lleoliad.

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
Sir Benfro	Cymdeithas Gofalwyr Maeth Sir Benfro (PFCA)	Bydd Cymdeithas Gofalwyr Maeth Sir Benfro (PFCA) yn cynnig cefnogaeth i blant mewn gofal trwy ddarparu cyfleoedd iddynt fagu hyder a chymdeithasu. Bydd £6,615 yn ariannu marchogaeth, dosbarthiadau iechyd, gweithdai drama, cludiant ac artist.
Sir Benfro	Pembrokeshire Action to Combat Hardship (Patch)	Bydd Pembrokeshire Action to Combat Hardship (Patch) yn defnyddio'r grant i newid un o'u faniau, y maent yn eu defnyddio i gludo bwyd a hanfodion i bobl sydd mewn angen ariannol ar draws yr ardal. Bydd £10,000 yn ariannu fan, treth ac yswiriant, a chostau cludo.
Sir Benfro	Puncheston Recreational Development Committee	Bydd Puncheston Recreational Development Committee yn Hwlfordd yn defnyddio'r grant i ddod ag aelodau eu cymuned ynghyd i adeiladu perthnasoedd rhwng y cenedlaethau a lleihau unigrwydd. Bydd £2,500 yn ariannu costau cludiant, tocynnau pantomeim a bwyd.
Sir Ddinbych	Brighter Futures	Bydd Brighter Futures yn Y Rhyl yn creu hyb ieuentid mewn tafarndy segur ac yn rhoi llais i bobl ifanc trwy weithgareddau gwirfoddoli a chymunedol. Bydd £9,962 yn ariannu yswiriant, gwaith trydanol, deunyddiau, cyhoeddusrwydd, cyfarpar TG, lluniaeth, gwiriadau DBS, hyfforddiant a nwyddau papur.
Sir Gâr	Awaydays Coastcare	Bydd Awaydays Coastcare yn Sir Gâr yn defnyddio cadwraeth arfordirol ac amgylcheddol fel offeryn i gynyddu lles pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael. Bydd £9,976 yn ariannu costau

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		cludiant, cynhaliaeth ac aros dros nos, ffioedd cynhadledd, cyfarpar TG, nwyddau swyddfa, treuliau gwirfoddolwyr, hyfforddiant ac yswiriant.
Sir Gâr	Calon Seren Ltd	Bydd Calon Seren Ltd yng Nghymru'n darparu 30 o sesiynau therapi â chymorth ceffylau i gynorthwyo ymadfer corfforol a lles pobl sy'n byw gyda chyflyrau hir dymor. Bydd £9,810 yn ariannu lloches maes, cyfarpar, ffensys, gataiau, treuliau teithio, sesiynau therapi ceffylau, goleuadau solar, rhent ac yswiriant.
Sir Gâr	Canolfan Teuluoedd De Cefncaeau (Tŷ Enfys)	Bydd Canolfan Teuluoedd De Cefncaeau (Tŷ Enfys) yn Sir Gâr yn defnyddio'r grant i redeg amrywiaeth o weithgareddau, er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y cenedlaethau o fewn eu cymuned. Bydd £10,000 yn ariannu costau cydlynedd, gwres a golau, ffioedd proffesiynol, iechyd a diogelwch a chostau postio.
Sir Gâr	Fizzypig Ltd	Bydd FizzyPig Ltd yn Sir Gâr yn defnyddio'r grant i ddod â phlant a addysgir gartref a'u teuluoedd o bob cwr o'r sir ynghyd i adeiladu sgiliau a pherthnasoedd trwy glybiau, sesiynau gweithgareddau a thaith breswyl sy'n canolbwyntio ar wyddoniaeth a thechnoleg. Bydd £9,990 yn ariannu costau llety, gweithdai, costau teithio, cyfarpar recordio, gwersi Cymraeg, sesiynau gweithgareddau a chostau gweinyddu'r prosiect.
Sir Gâr	Gwasanaethau Cam-drin Domestig	Bydd Gwasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin Cyfyngedig yn

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
	Caerfyrddin Cyfyngedig	defnyddio'r grant i redeg sesiynau a gweithgareddau chwarae i gefnogi teuluoedd sydd wedi profi cam-drin domestig i adeiladau cysylltiadau a rhwydweithiau cefnogi cryfach gyda'r rhai sydd wedi rhannu profiadau tebyg. Bydd £10,000 yn ariannu costau staff.
Sir Gâr	Ymddiriedolaeth Eglwys y Beibl, Rhydaman	Bydd Ymddiriedolaeth Eglwys y Beibl, Rhydaman yn Sir Gâr yn cynnal digwyddiadau coginio rheolaidd rhwng y cenedlaethau ar gyfer pobl ifanc a hŷn yn y gymuned. Bydd £9,610 yn ariannu costau gweithwyr sesiynol, arddangosiadau coginio, cyhoeddusrwydd, hyfforddiant a chyfarpar.
Sir Fynwy	Cyngor Tref Brynbuga	Bydd Cyngor Tref Brynbuga yn Sir Fynwy yn defnyddio'r grant i osod cyfleusterau y mae angen mawr amdanynt yng nghae Owain Glyndwr a fydd yn gwneud y parc yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfan. Bydd £9,850 yn ariannu ffioedd pensaer, costau adeiladu, gosod toiledau, a llwybr.
Sir Fynwy	Llyfrgell Gymunedol Y Lolfa	Bydd Llyfrgell Gymunedol Y Lolfa yn Rhydaman yn estyn eu prosiect o ddarparu clybiau llyfrau i blant, plant yn eu harddegau ac oedolion. Bydd £9,890 yn ariannu gweithiwr prosiect, yswiriant, hurio ystafell, hyfforddi gwirfoddolwyr a gwiriadau DBS.
Sir y Fflint	Elusen Plant Happy Days	Bydd Elusen Plant Happy Days yn Sir y Fflint yn rhoi cyfle i blant sydd ag anghenion ychwanegol weld lleoedd o ddiddordeb na fyddai modd iddynt

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		fynd iddynt fel arall. Bydd £3,409 yn ariannu pedair taith.
Sir y Fflint	The Counselling Hub	Bydd The Counselling Hub yn Yr Wyddgrug yn darparu cefnogaeth a chwnsela ar gyfer pobl sy'n profi salwch meddwl ac emosiynol. Bydd £10,000 yn ariannu cyfarpar TG, marchnata, treuliau gwirfoddolwyr, hurio lleoliad a ffioedd cwnsler.
Sir y Fflint	Ysgol Gymraeg Mornant	Bydd Ysgol Gymraeg Mornant yn Sir y Fflint yn sefydlu côr cymunedol a chynnal digwyddiadau canu a chymdeithasu rhwng y cenedlaethau. Bydd £8,900 yn ariannu costau gweithdy, cyfarpar, cludiant, deunyddiau a hyfforddiant.
Sir y Fflint	Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn	Bydd Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn yn defnyddio'r grant i adeiladu cyfleuster trac rhedeg awyr agored. Bydd £10,000 yn ariannu gwair artiffisial a marciau'r trac.
Torfaen	Victoria Village and District Welfare Hall	Bydd Victoria Village and District Welfare Hall yn Nhorfaen yn gwella eu hadeilad fel y gallant barhau i gefnogi eu cymuned trwy redeg eu rhaglen helaeth o weithgareddau y gofynnwyd amdanynt gan eu cymuned. Bydd £10,000 yn ariannu to newydd.
Ynys Môn	Canolfan Llanfairynghornwy	Bydd Canolfan Llanfairynghornwy ym Môn yn adnewyddu eu cegin a thoiledau, ac yn prynu dodrefn i alluogi grwpiau cymunedol i ddefnyddio neuadd y pentref. Bydd £4,043 yn ariannu cadeiriau, byrddau, cyfarpar cegin gan gynnwys ffwrn, taflunydd a sgrin, byrddau arddangos,

Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

Awdurdod Lleol	Mudiad	Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer:
		trwsio'r toiledau ac addasiadau anabledd.